## Gweledigaeth

Byddwn ni, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru, yn gwneud gwaith adeiladol ac amserol o ansawdd uchel wrth graffu ar faterion ariannol a deddfwriaethol, a materion o ran polisi, mewn perthynas â Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig.

Byddwn yn cael ein harwain gan y dystiolaeth ym mhopeth a wnawn. Byddwn yn canolbwyntio ar p'un a yw polisi a deddfwriaeth yn cael eu gweithredu: a ydynt yn gwneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru?

Bydd lleisiau plant a phobl ifanc yn greiddiol i'n gwaith craffu. Byddwn yn defnyddio dulliau newydd ac arloesol i wrando ar yr unigolion anoddaf eu cyrraedd.

Byddwn yn ystyried hawliau plant a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc yn ein holl ymchwiliadau unigol.

## Amcanion

**Byddwn yn:**

- sicrhau bod hawliau plant yn greiddiol i bopeth a wnawn;
- ystyried yr effaith ar lesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc ym mhob ymchwiliad;
- canolbwyntio ar effaith negyddol amddifadedd ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc, a'r anghydraddoldeb sy'n deillio o hynny;
- gweithio ar y cyd fel Pwyllgor;
- sicrhau bod ein hargymhellion a'n casgliadau wedi'u seilio ar dystiolaeth;
- rhoi lleisiau plant a phobl ifanc wrth galon popeth a wnawn, ac ymdrechu i roi cyfle i'r plant a'r bobl ifanc hynny nad yw eu lleisiau bob amser yn cael eu clywed ddweud eu dweud;
- chwilio am gyfleoedd i weithio gyda phwyllgorau eraill y Senedd, Senedd Ieuenctid Cymru a grwpiau trawsbleidiol mewn meysydd o ddiddordeb a rennir a lle y bydd hyn yn gwella ein gwaith craffu;
- treialu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio a cheisio eu hymgorffori yn ein ffyrdd o weithio yn y dyfodol os ydynt yn helpu i wella ein heffeithiolrwydd;
- dysgu o arfer da pwyllgorau eraill y Senedd, yn ogystal â dilyn arfer da o bob un o ddeddfwrfeydd y DU a deddfwrfeydd tebyg eraill ledled y byd;
- gwerthuso ein ffyrdd o weithio'n rheolaidd, a gofyn am adborth ar ein heffeithiolrwydd gan eraill; ac
- adolygu ein cynllun strategol yn rheolaidd yng ngoleuni digwyddiadau, datblygiadau ac adborth gan blant a phobl ifanc, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.